

ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Ionawr 2018



Blwyddyn Newydd Dda. Daeth Tymor y Nadolig yn Ysgol Eifionydd i ben gyda phrysurdeb a bwrlwm nifer o weithgareddau.

Taith Busnes BI.10

Ar fore lau y 7fed o Ragfyr aeth disgyblion BI.10 Busnes Ysgol Eifionydd ac Ysgol Ardudwy i ymweld â Chwmni Cyfrifiaduron Stone yn Stafford. Cafodd y disgyblion gyfle i fynd o amgylch yn gweld y gwahanol adrannau adeiladu ac ailgylchu cyfrifiaduron. Diolch i Mr. Sion Cadwaladr am drefnu'r daith.



Cynerdd Nadolig

Cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig yn Neuadd yr ysgol nos Lun, Rhagfyr 18fed. Cafwyd deunaw o eitemau amrywiol gan gynnwys unigolion, deuawdau, triawd fflwt, parti merched a chôr BI.7. Cafwyd cyngerdd gwerth chweil a'r cyfan yn dyst i waith Mr. Gareth Hughes, athro Cerdd, Miss Llio Dudley a'r disgyblion fu'n cymryd rhan. Ar ddiwedd y cyngerdd diolchodd Mr. Dewi Bowen i bawb oedd wedi cymryd rhan yn y cyngerdd ac i'r holl staff a disgyblion fu'n trefnu a chynorthwyo gyda'r cyngerdd. Cyflwynodd Mr. Bowen anrheg i Mr. Gareth Hughes a Miss Llio Dudley am eu gwaith clodwiw.

Taith i Cineworld

Dydd Mawrth, Rhagfyr 19eg gwobrwywyd nifer o ddisgyblion gyda taith i Cineworld, Cyffordd Llandudno. Fel rhan o ymdrech yr ysgol i wella a chodi canran presenoldeb, cynhaliwyd cystadleuaeth ar gyfer y dosbarthiadau cofrestru. Gwobrwywyd dau ddosbarth gyda'r canran presenoldeb uchaf. Roedd un dosbarth buddugol o CA3, sef 7MAA ac un dosbarth buddugol o CA4, sef 10GP. Cafodd y disgyblion ddiwrnod wrth eu bodd yn gwyllo ffilm ac ymlacio ar ddiwedd y tymor. Bydd y gystadleuaeth yn ail-ddechrau dydd Llun, Ionawr 8fed a bydd y gystadleuaeth i unigolion yn parhau sef y cyfle i ennill I-pad am bresenoldeb dros 98%.

Daeth Ed Holden hefyd i mewn ar ddydd Mawrth, 19eg o Ragfyr i wneud gweithdai gyda disgyblion BI 7 a 9 i hybu'r iaith Gymraeg ac fel rhan o'r cynllun trefnwyd Disco Caneuon Cymraeg ar b'nawn Mercher, 20fed o Ragfyr i ddisgyblion BI.9 a 10. Diolch i PCSO Mark Hughes am fod yn DJ i ni.

Diwrnod Siwmpwr Nadolig a Ras Noddedig Sion Corn

Ar ddiwrnod olaf y tymor cafodd disgyblion a staff yr ysgol gyfle i ymuno yn hwyl yr Ŵyl wrth wisgo siwmpwr Nadoligaidd neu eu dillad eu hunain a bu hefyd Ras Noddedig Sion Corn oddi amgylch yr ysgol i'r disgyblion. Casglwyd £945 tuag at Apêl Achub y Plant a'r Ysgol.

Cystadleuaeth Talent Eifionydd

Ar ddiwrnod olaf y tymor bu nifer o ddisgyblion hefyd yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth Talent Eifionydd. Bu llawer o eitemau gwefreiddiol gan gynnwys Gymnasteg, Cyfeiliant Piano, Canu a Chomedi llawn hwyl. Diolch i Leri Roberts a Cedron Sion, sêr Rownd a Rownd am feirniadu'r gystadleuaeth. Yr enillwyr oedd:

Emma Buckely 1af.

Nel Evans a Lowri Roberts 2il

Grace McMeeken ac Eva Jones 3ydd



Ymgyrch Nadolig 2017 y disgyblion eleni oedd casglu bwyd tuag at y Banc Bwyd Lleol. Diolch i bawb a gyfrannodd i lenwi 8 llond bocs o fwyd i'r ymgyrch.

